| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Ionawr 2013** |
| **Aelod Arwain:** | **y Cyng. David Smith, Tir y Cyhoedd** |
| **Swyddog Arwain:** | **Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Bryn Bowker, Swyddog Polisi Cynllunio** |

**Teitl: Adroddiad yn ôl am yr ymgynghoriad ar nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynglŷn â nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl, ac amlinellu unrhyw newidiadau dilynol a gynigir i'r ddogfen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl rhwng 24 Hydref a 19 Rhagfyr 2012.

1.2. Fel y gyfres bresennol o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol, bydd nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl, os caiff ei fabwysiadu, yn ystyriaeth gynllunio o bwys wrth asesu ceisiadau cynllunio. Bydd nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl hefyd yn cynnig strwythur i'r Cyngor wrth ddatblygu gwaith adfywio yng Ngorllewin y Rhyl, gan gynnwys gorchmynion prynu gorfodol parhaus os byddant yn ofynnol. Un nod pellach yw denu buddsoddiad preifat i'r ardal. Yn atodiad 1 ceir map sy'n dangos yr ardal y mae dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl yn ymdrin â hi.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynglŷn â Chanllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl, ac amlinellu unrhyw newidiadau dilynol a gynigir i'r ddogfen. Ceisir cymeradwyaeth derfynol i'r ddogfen mewn Cyngor Llawn ar 26 Chwefror 2013. Bydd y Cyngor Llawn yn cael gwybod am unrhyw sylwadau a wneir yn y pwyllgor hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n nodi'r sylwadau a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori ac unrhyw newidiadau dilynol a gynigiwyd i Ganllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl.

## 4. Manylion yr adroddiad

*Cefndir*

4.1. Mae'r materion cymdeithasol ac economaidd sy'n herio Gorllewin y Rhyl yn hysbys iawn. Mae Gorllewin y Rhyl yn rhan o ardal ehangach sydd yn 'Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru' a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda nifer o ddogfennau strategol wedi'u cynhyrchu ar lefel llywodraeth leol a chenedlaethol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion cymdeithasol ac economaidd hyn a nodwyd. Mae'r offeryn diweddaraf a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn dosbarthu 'Gorllewin y Rhyl 1' a 'Gorllewin y Rhyl 2' yn 7$^{fed}$ ac yn 1$^{af}$ yn y drefn honno allan o'r 1896 o ardaloedd a aseswyd yng Nghymru.

4.2. Bwriad nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl yw helpu i fynd i'r afael â'r materion cymdeithasol ac economaidd hyn drwy sefydlu amcanion i'r ardal, gan nodi defnyddiau cynllunio derbyniol ar fframwaith datblygu ardal, a thrwy amlinellu egwyddorion datblygu allweddol y byddai'n rhaid i geisiadau gynllunio a gyflwynir yn yr ardal benodol gydsynio â hwy. Wrth wraidd y cynllun mae creu man agored yn ganolbwynt, gwella ansawdd tai a'r amgylchedd adeiledig, a nodi safleoedd a fyddai'n addas ar gyfer datblygiad newydd, gan gynnwys defnyddiau cyflogaeth a thwristiaeth i ategu'r stryd fawr gerllaw.

*Ymgynghoriad*

4.4. Cytunwyd ar gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft, ar y cwmpas ac ar y bwriad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus, yn y Pwyllgor Cynllunio ym mis Medi 2012.

4.5. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl yn para 8 wythnos, rhwng 24 Hydref a 19 Rhagfyr 2012. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys hysbysiad i'r wasg yn y Rhyl Journal, defnyddio gwefan y cyngor a llythyr at fwy na 390 o sefydliadau/unigolion, gan gynnwys: Cyngor Tref y Rhyl; Cymdeithas Maes Chwarae Antur y Rhyl, Asiantaeth Gymunedol y Rhyl ac asiantau lleol, yn rhoi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad ac yn dweud wrthynt sut i ymateb. Dosbarthwyd llythyrau hefyd â llaw i'r holl eiddo yn ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl. Darparwyd copïau o'r ddogfen a phosteri hyrwyddo yn Neuadd Tref y Rhyl, Llyfrgell y Rhyl, The Foryd Centre, The Village, y Rhyl a Chaledfryn, Dinbych .

4.5. Cynhaliwyd sesiwn 'galw heibio' anffurfiol gan roi cyfleoedd i aelodau'r cyhoedd drafod cynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol gyda swyddogion. Cynhaliwyd y sesiwn yn Neuadd Tref y Rhyl ddydd Mercher 7 Tachwedd, rhwng 3pm a 7pm. Trefnodd Sir Ddinbych gyfarfod anffurfiol ag aelodau o Gyngor Tref y Rhyl. Bu Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn trafod y ddogfen gyda'r Grŵp Ardal Aelod.

4.6. Cafodd y Cyngor 15 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a gododd y materion canlynol:

- Mae gan Orllewin y Rhyl ddigon o fannau gwyrdd.
- Dylai tai gael eu hailwampio nid eu dymchwel.
- Mae'r uchelgais a'r weledigaeth i Orllewin y Rhyl yn rhy amrywiol.

- Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn canolbwyntio ar fan agored na fydd o reidrwydd yn cyflawni'r adfywio a amlinellir.
- Mae gofyn nodi ffynhonnell o refeniw ar gyfer cynnal/rheoli'r gwaith arfaethedig.
- Dylai ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol gynnwys safle Ocean Plaza.
- Dylai'r ardal Adfywio fod yn cynnig cymorth ariannol i berchenogion preifat gyda safonau gosodedig ar gyfer ardaloedd a ddosbarthir yn 'ardaloedd dim newid'.
- Byddai mwy o ailwampio'n ychwanegu at safle hanesyddol yr ardal.
- Mae'r canllawiau dylunio'n rhy ragnodol a byddant yn arwain at ddylunio digyffro.

4.7. Mae ymatebion manwl i'r ymgynghoriad wedi'u crynhoi a'u cynnwys yn atodiad 2 sydd hefyd yn cyfeirio at unrhyw welliannau arfaethedig i Ganllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl. Mae fersiwn ddiwygiedig o Ganllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda newidiadau sylweddol yn atodiad 3. Mae'r sylwadau gwreiddiol ar gael i'w gweld ar gais gan y tîm Polisi Cynllunio.

4.8. Mae'r newidiadau allweddol arfaethedig i'r ddogfen yn cynnwys:

- Ychwanegu cyfeiriad at y Polisi Cynllunio Cenedlaethol.
- Mapiau wedi'u golygu i wahaniaethu rhwng y ddwy wahanol ardal gadwraeth.
- Gwaredu'r cyfeiriad at yr ardal gadwraeth fel 'rhwystr'.
- Cyfeirio at faes parcio cyhoeddus newydd arfaethedig ar Crescent Road.
- Ychwanegu testun i gadarnhau bod y Cyngor yn cynnig gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i roi cyngor pellach ar lifogydd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. *Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17*. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cyfrannu'n gadarnhaol at y blaenoriaethau corfforaethol arfaethedig canlynol:

- *Datblygu'r Economi Leol* - drwy osod y fframwaith i greu cymuned fwy cytbwys, bydd y ddogfen yn helpu i leihau amddifadedd yn y rhan hon o Orllewin y Rhyl, yn helpu i fynd i'r afael â chysylltiadau negyddol yr ardal, yn hybu hyder a buddsoddiad y sector preifat yn y Rhyl, ac yn creu cyfleoedd busnes a swyddi newydd.
- *Sicrhau bod tai o safon ar gael* – drwy chwarae rhan allweddol wrth helpu i gyflawni canlyniad blaenoriaeth "cynnig amrywiaeth o fathau a ffurfiau o dai … i fodloni anghenion unigolion a theuluoedd".

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw adnoddau ychwanegol yn ofynnol oherwydd bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno a'i hasesu yn rhan o gais cynllunio. Gall copïau papur o nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl gael eu cynhyrchu yn y gyllideb bresennol, a bydd copi electronig o'r ddogfen ar gael ar y wefan.

6.3. Ni ystyrir y byddai'r ddogfen yn arwain at niwed annerbyniol i'r amgylchedd naturiol na bioamrywiaeth.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

7.1. Fel yr amlinellir yn adran 4.4 o'r adroddiad, mae proses ymgynghori lawn wedi'i chynnal.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1. Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau gael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1. Nod y Canllawiau Cynllunio Atodol yw darparu fframwaith cynllunio clir i fynd ymlaen ag adfywio Gorllewin y Rhyl, er mwyn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn perthynas â'r fframwaith hwnnw. Heb ganllawiau clir, mae perygl y byddai diffyg dull cyfannol cyson ar gyfer cynigion datblygu yn ei gwneud yn anodd gwrthod ceisiadau cynllunio nad ydynt yn cydsynio â'r strategaeth a amlinellwyd ar gyfer Gorllewin y Rhyl. Hefyd, gallai absenoldeb y ddogfen hon danseilio'n rhannol y sail dystiolaeth a ddefnyddir i helpu i gefnogi gorchmynion prynu gorfodol a ystyrir yn fecanwaith allweddol wrth helpu i adfywio Gorllewin y Rhyl.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.